**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Y Grŵp Trawsbleidiol ar STEM

## Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Cyfarfod am 6.30pm ddydd Mawrth 5 Tachwedd, 2019, Ystafell Gynadledda A, Tŷ Hywel

**COFNODION**

**Yn bresennol**: David Rees AC (yn y gadair), Mark Isherwood AC, a'r aelodau allanol a ganlyn: Dr Robert Hoyle (Llywodraeth Cymru), Sarah Jones, Cerian Angharad (ASE Cymru), Yr Athro Keith Smith (Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol), Keith Jones (Sefydliad y Peirianwyr Sifil), Dr David Cunnah (Sefydliad Ffiseg), Sharon Davies (Y Brifysgol Agored), Helen Lee (Y Brifysgol Agored), Dr Stephen Benn (Y Gymdeithas Fioleg Frenhinol), Dave Jones (Y Gymdeithas Ddaearegol), Julie Walters (Technocamps), Irene Leon Alameny (Y Cyngor Prydeinig), a Leigh Jeffes

**Croeso**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i’r cyfarfod.

**Ethol Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar STEM**

Etholwyd David Rees AC.

**Ethol dau Is-gadeirydd i'r Grŵp Trawsbleidiol ar STEM**

Etholwyd Dr Dai Lloyd AC a Nick Ramsay AC.

**Ethol Ysgrifennydd y Grŵp Trawsbleidiol ar STEM**

Penodwyd y Gymdeithas Gemeg Frenhinol i weithredu fel ysgrifenyddiaeth y Grŵp, ar ôl i Niall Sommerville gymryd lle Leigh Jeffes yn y rôl hon.

**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2017/2018**

Dosbarthwyd y rhain a chawsant eu cymeradwyo.

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Cafwyd ymddiheuriadau gan Nick Ramsay AC, Dr Dai Lloyd AC, Jack Sargeant AC, Helen Mary Jones AC, ac Andrew Mackenzie (Y Gymdeithas Ffisiolegol), Jenny Scott (Y Cyngor Prydeinig), yr Athro Faron Moller (Technocamps), Wendy Sadler MBE (Science Made Simple), Stephen Lawrence (Sefydliad y Peirianwyr Sifil: Cymru), Yr Athro Mike Charlton (Cymdeithas Ddysgedig Cymru) a Niall Sommerville.

Gofynnodd y Cadeirydd i’r Grŵp anfon eu llongyfarchiadau at Niall a Kirsty Sommerville yn dilyn genedigaeth eu mab.

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Gorffennaf 2019**

Roedd y rhain wedi’u dosbarthu.

Cywiriad: Ychwanegir 'newyddion ffug’ at y rhestr o bynciau i’w trafod yn y dyfodol.

**Materion yn codi**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

**Pynciau ar gyfer cyfarfodydd yn 2020**

Gofynnodd y Cadeirydd am awgrymiadau o ran siaradwyr y gellid eu gwahodd neu agweddau penodol ar y pynciau a gyflwynwyd eisoes ar gyfer busnes yn y dyfodol, sef: Seiberddiogelwch, cydweithio traws-ddiwydiant/academaidd, a newyddion ffug. Dylid anfon awgrymiadau at Niall Sommerville.

Dywedodd y Cadeirydd y dylid estyn gwahoddiad i Kirsty Williams CBE AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, siarad yn un o gyfarfodydd y Grŵp Trawsbleidiol ar STEM yn 2020. Cytunwyd ar hyn.

**Cymdeithasau gwyddonol a chyrff proffesiynol - y wybodaeth ddiweddaraf**

Rhoddodd cynrychiolwyr y wybodaeth ddiweddaraf i'r Grŵp am weithgareddau ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Dywedodd Dr David Cunnah y byddai’n gadael y Sefydliad Ffiseg yn fuan i ymgymryd â chyfrifoldebau newydd gydag Innovate UK. Roedd yn gobeithio dod i gyfarfodydd yn y dyfodol yn rhinwedd ei swydd newydd. Diolchodd y Cadeirydd i David am ei gyfraniad i'r Grŵp dros y chwe blynedd ddiwethaf.

**Adroddiad gan Dr Robert Hoyle**, Prif Swyddog Gwyddonol, Swyddfa Prif Gynghorydd Gwyddonol Cymru.

Rhoddodd Dr Hoyle gyflwyniad ar ddatblygiadau ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Yn dilyn cwestiynau, diolchodd y Cadeirydd i Robert am ei gyflwyniad.

**Cyflwyniad: Sarah Jones**, Prif Beiriannydd Sifil NNB Genco a chyn-Gadeirydd Sefydliad y Peirianwyr Sifil: Cymru.

Rhoddodd Sarah Jones gyflwyniad gyda’r teitl ‘Nuclear Power for the Future’. Yn dilyn cwestiynau, diolchodd y Cadeirydd i Sarah am ei chyflwyniad.

**Unrhyw fater arall**

Nid oedd unrhyw fater arall.

**Dyddiadau cyfarfodydd 2020**

Dydd Mawrth 3 Mawrth 6.30pm
Dydd Mawrth 30 Mehefin 6.30pm
Dydd Mawrth 3 Tachwedd (Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol) 6.30pm

Cynhelir 16eg digwyddiad blynyddol y Gymdeithas Gemeg Frenhinol, *Gwyddoniaeth a’r Cynulliad*, a fydd yn cael ei ailenwi’n *Gwyddoniaeth a’r Senedd*, a’i noddi gan yr Is-gadeiryddion, ddydd Mawrth 19 Mai. Dywedodd Leigh Jeffes y byddai’n dosbarthu’r manylion rhagarweiniol ym mis Ionawr.

**Cloi'r cyfarfod**

Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben.